



Datgloi Gwerth Cynllunio

Canllaw i aelodau a etholwyd i awdurdodau lleol yng Nghymru ym mis Mai 2022

Cynllunio yw un o'r dulliau pwysicaf sydd ar gael i Awdurdodau Lleol ac Aelodau Iunio eu cymunedau a'u lleoedd. Mae'n ysgwyddo cyfrifoldeb gwirioneddol am gyflawni ar gyfer y gymuned gyfan heddiw ac yn y dyfodol.

Mae gan gynllunio ran bwysig i'w chwarae o ran cyflawni nodau corfforaethol Awdurdodau Lleol a chefnogi'r Nodau Llesiant a gyflwynwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae cynigion cynllunio (boed wedi'u neilltuo i gynllun neu'n geisiadau) yn rhagweld newid ac mae newid yn aml yn creu ymdeimlad o ofn ymhlith rhai sy'n gwneud cynllunio yn bwnc eithaf heriol i aelodau sy'n aml yn wynebu pwysau sy'n gwrthdaro.

Darlunio

Mae cynllunio wedi'i leoli ar y groesfordd rhwng cymunedau a phroses gwneud penderfyniadau llywodraeth leol ac mae ganddo ran hanfodol i'w chwarae wrth i ni ddod allan o bandemig Covid-19. Nawr yw'r amser i fanteisio ar botensial Cymru i:

- Fynd i'r afael â'r pâr o argyfyngau yr hinsawdd a natur a chyrraedd targedau allyriadau sero net Cymru i amddiffyn ac adeiladu cymunedau lleol cynaliadwy
- Hybu economi lesiant
- Darparu cartrefi fforddiadwy ac o ansawdd da i bawb
- Mynd i'r afael â thlodi a lleihau anghydraddoldebau iechyd

I sicrhau'r canlyniadau hyn, mae angen croesawu newid a darparu map llwybr eglur i Gymru y gellir ei wireddu yn y tymor hir, y tymor canolig a'r tymor byr. Mae'n hanfodol bod gan adrannau cynllunio pob awdurdod lleol yng Nghymru adnoddau digonol fel y gallan nhw weithredu i'w potensial llawnaf, fel y nodir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad, [Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru](#): "Nid yw Awdurdodau Cynllunio yn ddigon cydnerth i gyflawni gwelliannau hirdymor oherwydd eu capasiti cyfyngedig a her rheoli system gymhleth".

Mae'r system gynllunio yn sail i wneud penderfyniadau effeithiol ar y lefel leol ac mae RTPI Cymru yn galw ar aelodau etholedig i ymrwymo i'r canlynol a datgloi gwerth cynllunio.

Ail-fuddsoddi yn y System Gynllunio

Beth – Sicrhau adnoddau a chyllid digonol i wasanaethau cynllunio pob awdurdod lleol i greu system gynllunio sy'n arwain y byd.

Pam – Er mwyn i'r system gynllunio yng Nghymru gyflawni ei dyletswyddau statudol a sicrhau gwaith creu lleoedd o safon, ceir angen critigol am ragor o fuddsoddiad. Mae adrannau awdurdod cynllunio lleol wedi'u tanariannu yn sylweddol, ac mae gwaith ymchwil yn dangos mai gwasanaethau cynllunio sy'n dioddef yn fwyaf difrifol o'r holl wasanaethau llywodraeth leol oherwydd toriadau i gyllidebau. Mae gwaith dadansoddi gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dangos bod "yr holl wasanaethau cynllunio – polisi, datblygu a rheoli adeiladu – wedi profi toriadau sylweddol mewn gwariant ers 2008-09 gyda chyllidebau wedi gostwng 50% mewn termau real, gan ystyried chwyddiant. Mae gwariant net wedi gostwng o £45.1 miliwn yn 2008-09 i £22.8 miliwn yn 2017-18. I gyllidebau rheoli datblygu y bu'r gostyngiad mwyaf lle mae gwariant wedi gostwng 59%." [Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru \(archwilio.cymru\)](#)



Cydnabuwyd yr angen am fuddsoddiad yn eang ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector. Dylid clustnodi ffioedd cynllunio i gefnogi darpariaeth adnoddau digonol i'r gwasanaeth, yn ogystal â newidiadau rheolaidd, bach ac sy'n cael eu cyfiawnhau yn dryloyw i ffioedd. Rydym o'r farn y dylai cynnydd i ffioedd cynllunio fod wedi'i seilio ar dystiolaeth a chael ei ategu gan gynigion eglur i wella darpariaeth, ond mae angen clustnodi unrhyw gynnydd i gefnogi'r gwelliannau darparu yn y gwasanaeth.

Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn ddull hanfodol i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i lunio eu hardaloedd lleol a gwireddu eu gweledigaethau. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg yn cynnig cyfle i awdurdodau lleol gydweithredu i fanteisio ar fuddion a mynd i'r afael â phroblemau yn yr ardal ehangach ac y mae'n rhaid buddsoddi ynddynt i wireddu'r buddion hyn.

Cefnogi Arweinyddiaeth Lle

Beth – Cynorthwyo gwasanaethau cynllunio i ddarparu arweinyddiaeth seiliedig ar le drwy hwyluso'r Egwyddorion Creu Lleoedd a dulliau seiliedig ar le a hyrwyddo swyddogaeth Prif Swyddogion Cynllunio.

Pam – Diben dull seiliedig ar le yw ystyried yr holl agweddau sy'n effeithio ar yr ardal honno. Cynllunwyr yw'r sianeli creu lleoedd – mae gan y gwasanaeth cynllunio swyddogaeth gydgysylltu hollbwysig i'w chyflawni o ran darparu strategaethau integredig ar gyfer yr economi, seilwaith, a'r amgylchedd yn rhan o ddull seiliedig ar le.

Mae RTPI Cymru yn cefnogi'r Egwyddorion Creu Lleoedd fel y'u cyflwynir yn [Siarter Creu Lleoedd Cymru](#) fel modd arall o oresgyn ffiniau sefydliadol a sectoraidd. Mae'r Siarter yn galw ar bawb sy'n gyfrifol am ddatblygu lleoedd i weithio a chynllunio ar y cyd â chymunedau lleol, i wella bywydau pobl, i gefnogi twf cynhwysol ac i greu lleoedd cynaliadwy sy'n ffynnu. Mae hyn yn cynnwys gwella cydgysylltiad rhwng polisi, cynlluniau a chyllid a gwella cydweithrediad a chyfathrebu ar draws pob sector a rhanddeiliad, gan gynnwys adrannau awdurdodau lleol, asiantaethau allweddol, y sector preifat a chymunedau lleol. Fel y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol dros eu cymunedau, mae aelodau etholedig yn chwarae rhan bwysig yn y broses hon drwy weithredu fel haen ddemocrataidd creu lleoedd ac arweinyddiaeth lle drwy ymgysylltu cyhoeddus gweithredol.

Fel cydweithredwyr naturiol, gall cynllunwyr sicrhau bod goblygiadau gofodol swyddogaethau eraill awdurdodau lleol yn cael eu hystyried. Mae'r hyfforddiant y mae cynllunwyr yn ei gael yn ymwneud yn ei hanfod â chreu cysylltiadau a gweld y darlun ehangach; mae'r rhain yn sgiliau hynod werthfawr i'w cyfrannu at drafodaethau corfforaethol. I gynorthwyo arweinyddiaeth seiliedig ar le, hoffai RTPI Cymru amlygu'r swyddogaeth hanfodol y gall Prif Swyddogion Cynllunio statudol ei chwarae mewn awdurdodau lleol a'u partneriaeth bwysig ag aelodau etholedig. Mae RTPI Cymru yn galw ar Awdurdodau i ymrwymo i sicrhau bod arbenigedd cynllunio yn cael ei ddefnyddio yn gorfforaethol mewn llywodraeth leol fel y gellir ymwreiddio gwerth lle a'i effaith ataliol ymhellach i fyny'r gadwyn ar iechyd y cyhoedd a datgarboneiddio mewn fframweithiau gwneud penderfyniadau ar gyfer buddsoddiad a darpariaeth integredig o wasanaethau.

Cynllunio ar gyfer Dyfodol Sero Net

Beth – Ymwreiddio dulliau cynaliadwy o ddatblygu mewn prosesau gwneud penderfyniadau bob dydd i hybu ffyrdd amgylcheddol gynaliadwy o fyw a lleoedd sy'n gadarnhaol o ran natur.

Pam – I fynd i'r afael â'r pâr o argyfyngau yr hinsawdd a natur, mae angen ymdrech gydgysylltiedig ar draws holl sectorau cymdeithasol i weddnewid y ffordd yr ydym yn byw a hyrwyddo ffyrdd carbon isel o fyw. Ceir potensial i greu lleoedd mwy cydnherth drwy'r system gynllunio i hybu patrymau datblygu cynaliadwy ar draws pob agwedd ar yr economi, cymdeithas, a'r amgylchedd. Mae RTPI Cymru yn cefnogi cyfeiriad y daith a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, sy'n gwneud yr ystyriaeth o'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol yn ganolog i'r system gynllunio. Mae RTPI Cymru yn galw ar aelodau etholedig i gefnogi cynllunwyr sy'n gweithio yn y system gynllunio newydd o ran bodloni ein targedau sero net uchelgeisiol trwy weithredu lleol fel:

- hyrwyddo byw yn lleol
- darparu seilwaith teithio llesol a chynaliadwy
- ymwreiddio'r Egwyddor Aildefnyddio Gyntaf
- darparu atebion tai cynaliadwy
- amddiffyn a gwella bioamrywiaeth
- cefnogi seilwaith carbon isel



Gwella Ymgysylltiad Cymunedau â Chynllunio

Beth – Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i sefydlu blaenoriaethau lleol a chyfleoedd cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Pam - Mae cymunedau yn meddu ar yr wybodaeth fewnol sydd ei hangen i lunio eu lleoedd yn weithredol a sicrhau canlyniadau y cytunwyd arnynt sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau pobl leol. Ein gweledigaeth yw y bydd gwell ymgysylltu cymunedol yn hybu system gynllunio gymdeithasol gynhwysol sy'n gwella ffyniant lleol.

Mae Cynlluniau Cynefin yn cynnig cyfle i fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o bynciau seiliedig ar le lleol. Fodd bynnag, gall proses a pharatoad Cynlluniau Cynefin gymryd amser, ymrwymiad ac adnoddau sylweddol. Cydnabyddir nad yw Cynlluniau Cynefin yn briodol ar gyfer pob cymuned. Mae gwaith partneriaeth yn allweddol, yn enwedig rhwng cymunedau ac awdurdodau cynllunio lleol ac mae hyn yn gofyn am adnoddau a chymorth i sicrhau proses lwyddiannus a chydweithredol ag ymgysylltiad cymunedol ystyrlon a chanlyniadau y gellir eu cyflawni. Dylid buddsoddi capasiti a sgiliau ledled Cymru i alluogi rhanddeiliaid i ymrwymo yn briodol i ymgysylltu cymunedol effeithiol ac ystyrlon, a'i gefnogi.

Mae gan fuddsoddi mewn gweithgareddau llunio cynllun cymunedol y potensial i sicrhau newid gwirioneddol fel bod materion lleol yn cael eu hadlewyrchu mewn blaenoriaethau strategol. Felly, mae RTPI Cymru yn galw ar aelodau etholedig i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gymunedau a gwasanaethau cynllunio i gefnogi ymgysylltu cymunedol ystyrlon.

Geirfa

Mae **Polisi Cynllunio Cymru** yn cynnwys canllawiau amlinellol polisi cenedlaethol ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio lyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

Cymru'r Dyfodol y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol i Gymru. Mae'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040 ac mae ganddo statws cynllun datblygu. lyw.cymru/cymru-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040

Cynlluniau datblygu sy'n dod i'r amlwg ar lefel ranbarthol yw **Cynlluniau Datblygu Strategol**.

Mae **Nodiadau Cyngor Technegol** yn darparu cyngor cynllunio manwl ac mae angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol eu hystyriaeth yn y broses gynllunio a gwneud penderfyniadau lyw.cymru/nodiadau-cyngor-technegol

Mae **Cynlluniau Cynefin** yn gyfle i gymunedau lleol ymgysylltu yn greadigol â'r broses gynllunio ac i gynllunwyr gefnogi mentrau creu lleoedd gyda phobl leol. www.placeplans.org.uk/

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)

Mae'r RTPI yn hyrwyddo grym cynllunio o ran creu lleoedd llewyrchus a chymunedau bywiog; mae RTPI Cymru yn arwain ein gwaith yng Nghymru. Mae gennym dros 27,000 o aelodau, gan gynnwys 1,300 yng Nghymru, yn y sectorau preifat, cyhoeddus ac academiaidd ac yn y trydydd sector.

Gan ddefnyddio ein harbenigedd a'n gwaith ymchwil, rydym yn dod â thystiolaeth ac arweinyddiaeth syniadau i lunio polisiâu a syniadau cynllunio, gan wneud y proffesiwn yn ganolog i drafodaethau mawr cymdeithas. Rydym yn gosod safonau addysg cynllunio ac ymddygiad proffesiynol sy'n rhoi gallu unigryw i'n haelodau, ble bynnag yn y byd y maent yn gweithio, i ymateb i heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymhleth. Ni yw'r unig gorff yn y Deyrnas Unedig sy'n rhoi statws Siartredig i gynllunwyr, y cymhwyster proffesiynol uchaf a geisir gan gyflogwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

Mae bron pob cynllunydd yn aelod o'r RTPI, fel y corff proffesiynol ar gyfer cynllunwyr gwlad a thref, pa un a ydynt yn gweithio yn y sector cyhoeddus neu breifat. Mae Cynllunwyr Tref Siartredig yn defnyddio'r llythrennau MRTPI ar ôl eu henwau, ac mae hyn yn dynodi eu bod wedi cyflawni asesiad annibynnol trwyadl o'u cymhwysedd proffesiynol ac yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad Proffesiynol ac yn ymrwymo i gadw eu sgiliau yn gyfredol.